# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2022**

**TAG**
**CYMRAEG: IAITH GYNTAF - UNED 3**
**2000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## CYMRAEG: IAITH GYNTAF - UNED 3

## CYNLLUN MARCIO HAF 2022

### Adran A

**Defnyddio Iaith a Barddoniaeth**

Cyfanswm o **25** marc

**1. (a)**

Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sydd yn dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc
Mwy na 2 wall – colli 1 marc
Ystyrir gwallau atalnodi, e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

**cerddai:** rhaid dangos yr amser amherffaith. Mae angen awgrymu gweithred sy'n ymestyn dros gyfnod o amser neu arfer/gweithgarwch a ddigwyddodd drosodd a throsodd yn y gorffennol. Ni ellir rhoi marciau os gellir defnyddio '*cerddodd'* neu '*cerddaf'* yn lle '*cerddai'* yn y frawddeg.

Cerddai Arwel i dŷ ei fodryb bob dydd Sadwrn pan oedd yn yr ysgol gynradd.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Cerddai Gwen i'r ysgol yn cyson nes iddi gael car.
Dyfernir 1 ½ marc gan ei bod yn dangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

Cerddai i'r parc ar ôl pob gwers biano am flynyddoedd.
Dim marciau gan na ddangosir person. Gellid defnyddio *'cerddwn', 'cerddem'* ac ati.

Cerddai Alaw i'r pwll nofio am chwech o'r gloch y bore.
Dim marciau gan na ddangosir bod hyn yn digwydd dros gyfnod o amser yn y gorffennol. Gellid defnyddio *'cerddodd'.*

**arnynt:** mae angen defnyddio'r arddodiad ar ôl berfenw a berfau yn gywir, ac mae angen dangos mai arddodiad trydydd person lluosog ydyw. Os bydd yn cael ei ddefnyddio yn dilyn enwau, ansoddeiriau neu gysyllteiriau dylai fod â chyswllt 3ydd person lluosog o fewn y frawddeg.

Dyma'r chwaraewyr y mae'r tîm yn dibynnu arnynt i sicrhau buddugoliaeth.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.
Rhaid cael gwrthrych lluosog i'r frawddeg.

Rydw i wrth fy modd yn eistedd arnynt.
Dim marciau gan nad oes gwrthrych lluosog i'r frawddeg. Ni wyddys at beth mae '*arnynt'* yn cyfeirio.

**y bydd**: gellir defnyddio y rhagenw perthynol 'y' os oes rhagenw blaen yn y cymal a bod y rhagenw blaen yn cyfeirio at y sawl sy'n cael ei ddisgrifio / gellir defnyddio'r rhagenw perthynol 'y' pan nad yw'n oddrych na gwrthrych y ferf yn yr isgymal dilynol.

Dyma'r disgybl y bydd ei waith yn aros yn y cof am amser maith.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol. **[3x2=6]**

**(b)** (i) Rhoddir 1 marc am esboniad cywir. Disgwylir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio termau cywir:

**tua chant**: enw yn treiglo'n llaes ar ôl yr arddodiad 'tua'.

**y Ddinas**: enw benywaidd (unigol) yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod.'

**[1x2=2]**

(ii) Rhoddir 1 marc am bob ateb cywir:

**rhagenw:** eu / ei
**berfenw:** gadael / gorlifo
**enw priod:** Caerdydd / Glan yr Afon / Taf / Cyngor y Ddinas **[1x3=3]**

(iii) Rhoddir 2 farc am gymal enwol <u>negyddol</u> cywir ac am gywirdeb ieithyddol.
Rhaid i'r cymal fod yn addas i'r cyd-destun
1 neu 2 wall – colli ½ marc.
Mwy na 2 wall – colli 1 marc

Gellir dyfarnu 2 farc am y canlynol:
Dywedodd arweinydd Cyngor y Ddinas nad yw bywydau'r trigolion mewn perygl.
Dim ymgais i ffurfio cymal negyddol – dim marc.
'nid' – defnydd anghywir o'r cymal – 0 marc. **[2]**

(iv) Gellir dyfarnu 1 marc am y brawddegau canlynol.

Disgwylir cymal ansoddeiriol / perthynol:
Ni ddylid newid ystyr y braweddegau gwreiddiol.
Aeth y canolwr a gafodd ei yrru oddi ar y cae i'r ystafell newid.
ond derbynnir cymal adferfol:
Aeth y canolwr i'r ystafell newid wedi iddo gael ei yrru oddi ar y cae.
Cafodd y canolwr ei yrru oddi ar y cae ac aeth i'r ystafell newid.

Disgwylir cymal adferfol:
Oherwydd iddo ennill y brif wobr am ymchwil gwyddonol Rhys Williams sy'n traddodi'r ddarlith eleni.

Disgwylir cymal cydradd:
Cafodd y canolwr ei yrru oddi ar y cae ac aeth i'r ystafell newid.

**[1x2=2]**

(v) Rhoddir 1 marc am bob arddodiad cywir:

Cael a chael fu hi i'r dewin ddianc **<u>rhag/oddi wrth</u>** y ddraig ddychrynllyd a galw am gymorth.

Er mwyn achub y cyfle i ymuno â'r cwrs 'Gwerthfawrogi Barddoniaeth' dylech gysylltu â'r swyddfa a gofyn **<u>i</u>** Idris Owen am fwy o fanylion. **[1x2=2]**

(vi) Rhoddir 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio termau cywir e.e. rhagenw, arddodiad, berf, enw benywaidd.

**taith tramor** > **taith dramor:** gan fod 'taith' yn enw benywaidd unigol mae angen treiglad meddal yn yr ansoddair sy'n dilyn.

**ar ddiwedd y dydd** > **yn y pen draw > yn y diwedd**: defnyddir idiom Saesneg wedi ei chyfieithu yma. **[4]**

(vii) Rhoddir 4 marc am lunio paragraff amrywiol ei frawddegau. Gellir cychwyn brawddeg gyda 'Bydd' unwaith yn unig.

1 neu 2 wall neu golli ffaith – colli ½ marc.
3 / 4 gwall – colli 1 marc.
5 /6 gwall – colli 1½ marc.
7/8 gwall – colli 2 farc ac ati.
O dan 1 marc, fydd y darn ddim yn ddealladwy.

Ni ddylid cosbi yr un gwall ddwywaith.
Dylid ystyried a oes gorddefnydd o ran geiriau neu gystrawen.
Mae angen ystyried cywair y darn hefyd.
Os yw'n ailadroddus – colli ½ marc.

Gellir dyfarnu 4 marc am y canlynol:

Cynhelir clyweliadau ar gyfer prif rannau'r sioe gerdd 'I'r Gad!' ddydd Llun nesaf am bedwar o'r gloch. Bydd angen i chi ddewis cân i'w chanu. Gallwch ddefnyddio'r cyfeilydd swyddogol neu un o'ch dewis chi. **[4]**

**[25]**

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

**Meini Prawf Cwestiwn penodol**

**2. Wrth ateb y naill gwestiwn a'r llall disgwylir bod yr ymgeiswyr yn:**

- cyfeirio'n benodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau perthnasol
- saernïo traethawd ac yn dewis a dethol y perthnasol
- ymdrin â chrefft/arddull y beirdd, ei saernïo o fewn y drafodaeth gan gyfeirio at y gynghanedd lle bo angen.

**Dyfarnu marciau:**

- rhaid ystyried ansawdd y drafodaeth wrth ddyfarnu marciau
- os na roddir sylw i arddull o gwbl dylid gostwng un band marciau
- pe bai ymgeisydd yn trafod un gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 10
- pe bai ymgeisydd yn trafod dwy gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 20
- rhaid i farc iaith AA3 fod o fewn band marciau i farc y cynnwys
- dylid ystyried 3 phwynt cyntaf meini prawf AA3 yn ogystal â'r ddau sy'n ymwneud â chywirdeb iaith.

**Cwestiwn (a)**

*Mae barddoniaeth yn gyfrwng i feirdd ystyried pynciau pwysig a darganfod* ***gobaith*** *i'r dyfodol.* ***Trafodwch*** *a* ***chymharwch*** *faint o obaith sydd gan Ifor ap Glyn, Grahame Davies a Menna Elfyn yn eu cerddi hwy. Dylech gyfeirio at* ***gynnwys*** *y cerddi a'u* ***harddull.***

Byddant yn cyfeirio at 'Beaufort, Blaenau Gwent mewn Gwyrdd'*.* *'*DIY*' ac* 'Y Gŵr Sydd ar y Gorwel'*.* Y nod yw **dewis a dethol yr elfennau perthnasol yn unig i ateb gofynion y cwestiwn.** Bydd yr **elfen gymharol** yn rhan hanfodol wrth gyfleu ymateb y beirdd. Mae'r tri bardd wedi cyfansoddi eu cerddi yn ystod cyfnodau gwahanol, y tri yn trafod themâu gwahanol ac mae agwedd rhai o'r beirdd tuag at y themâu hynny yn fwy gobeithiol na'r lleill.

**Gwahanol raddau o obaith yn cael ei ddangos:**

Mae Menna Elfyn yn nodi o'r cychwyn mai '*cerdd hir o allgaredd yw'*, gyda **chariad at gyd-ddyn** yn ganolog. Felly, er gwaethaf perygl rhyfel, y protestio a'r anghydweld, mae **gobaith** drwy'r gerdd. Mae'r bardd yn cydnabod y perygl. Gwêl fod y sefyllfa'n fregus a'n bod '*ar erchwyn y didangnef*'. Gall pethau fynd o chwith ar unrhyw adeg, ac mae'n sefyllfa beryglus nad yw'n bosibl gweld diwedd iddi; mae'n '[*g]erdd a allai fynd ymlaen drwy'n bywyd'*, ond eto, ysbryd o obaith sydd i'r gerdd. Teimla'r bardd fod ateb, a bod gobaith dim ond i bawb berchnogi'r ymdrech.

Darlun **diobaith** sydd ar **gychwyn** 'Beaufort, Blaenau Gwent mewn Gwyrdd' – y capel wedi cau, chwyn yn gorchuddio'r beddau yn y fynwent, y gwynt yn chwipio'r tyfiant a storm yn cyniwair. Atgof yn unig yw'r iaith Gymraeg, yn ddim ond '*naddion ar y meini'*. Mae ffenestri'r capel yn '*rhythu*' yn creu awyrgylch sinistr a'r brain a gysylltir â marwolaeth yn '*crawcian*' a'u '*siwtiau syber'* yn awgrymu iddynt ddod i gladdu unrhyw obaith. Ond yn ail ran y gerdd mae **newid awyrgylch** llwyr. Cawn ein camarwain gan y '*storom*' a ddisgwylid. Storm '*coetsus a welingtons'* a *'[ph[onchos dayglo'* yw hon. Lle y disgwylid i'r awyr a'r awyrgylch dywyllu ymhellach, daw'r storm hon '*yn gawod o liw'*. I ganol anobaith y fynwent daw gobaith am ddyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg drwy blant yr ysgol feithrin. Yma gwelir dwy ochr y geiniog.

© WJEC CBAC Cyf.

Darlun **diobaith** a gawn yn 'DIY' o'r cychwyn – adeilad *'Neuadd y Gweithwyr'* angen ei adnewyddu, '*chwyn yn tyfu yng nghraciau ei chrandrwydd', 'llechi to wedi'u dwyn'* a'r adeiladau a fu'n ganolbwynt i'r gymuned – '*Neuadd, capel, clwb'* – bellach *'yn gregyn'*. Does neb yn eu defnyddio mwyach, neb yn ymweld â nhw. Maen nhw'n gofeb i orffennol llewyrchus ond does dim pwrpas iddynt gan fod newid wedi bod yn y gymuned. Mae tristwch yn y ddelwedd ohonynt fel '*amgueddfeydd heb ymwelwyr'* a'r gwirionedd hallt – *'Nid oes gan y gymuned bellach ddigon o'u hangen / i'w cynnal a'u cadw'*. Nid yw'r gweithgarwch modern, chwaith, yn cynnig gobaith i'r gymdeithas. Mae pawb yn brysur yn '*codi estyniad / newid cegin, codi sièd'* ond '*pawb-drosto'i-hun yw hi bellach'*. Nid gweithgarwch cymunedol – '*cyd-ddyheu'* – yw hwn, ac mae'n ddrych o **ddirywiad cymdeithas** drwy'r gerdd i gyd.

**Gobaith yn gysylltiedig â phrofiadau gwahanol sydd yma:**

Maent i raddau helaeth yn cyfleu gwahanol gyfnodau. Roedd 1984 yn gyfnod protestiadau Comin Greenham yn erbyn hawl awdurdodau America i gadw **arfau niwlcear** yno. Gobaith y daw dyn i weld perygl yr arfau hyn a gallu cydfyw mewn heddwch sydd yn 'Sul y Mamau yn Greenham, 1984'. Yr iaith **Gymraeg** yw testun pryder Ifor ap Glyn yn 'Beaufort, Blaenau Gwent mewn Gwyrdd'. Gweld gobaith yng ngallu plant yr ysgol feithrin i siarad Cymraeg mewn cymuned a gollodd yr iaith y mae. Mae'r ddau fardd yn gweld gobaith mewn lle arbennig, tra mai peintio darlun o **gymdeithas gyfoes** yn gyffredinol mae Grahame Davies. Mae naws mwy beirniadol yn 'DIY'.

**Pobl sy'n cynnig gobaith:**

Yn Greenham, y **merched** sy'n cydbrotestio sy'n cynnig gobaith. Yn y **chwaeroliaeth** mae'r cysur a'r ffaith bod '*mwy'n cyrraedd'* sy'n rhoi'r nerth i'r protestwyr ddal ati ac yn '*codi calon'*. Er fod casineb y gwrthwynebwyr yn golygu bod '*sgarmesoedd ganol nos'* nes bod eiddo'r merched '*yn sarn'*, eu hymateb yw '*cychwyn eto fory'* gyda gobaith o'r newydd.

**Plant yr ysgol feithrin** sy'n cynnig gobaith i Ifor ap Glyn. '*Eu lleisiau'n diasbedain rhwng y beddau*' sy'n cyfleu gobaith ynglŷn â'r iaith Gymraeg. Er mor anobeithiol yr ymddengys y sefyllfa'n aml, daw gobaith gan y plant, a hynny'n hollol annisgwyl.

Pobl, hefyd, sy'n cyfleu anobaith i Grahame Davies. Tra bu pobl yn '*cyd-ddyheu'* i lunio cymdeithas gynnes, ofalgar yn y gorffennol, arddangos ***'ein hunigoliaeth'*** a wna pobl bellach a bodoli ym *'[mh]reifatrwydd unig ein tai'*.

**Defnyddir natur i gyfleu'r gobaith:**

Defnyddia Menna Elfyn ddelwedd y **blodau** i gyfleu gobaith. Mae '*saffrwm yn codi'* a'r '*cennin Pedr o Gymru'n blodeuo'* yn awgrymu bod modd goresgyn y trais. Ni ellir celu rhinweddau pobl a'u hawydd am heddwch mwy nag y gellir rhwystro natur rhag deffro.

Mae Ifor ap Glyn yn defnyddio **natur wyllt** i ddarlunio dirywiad Beaufort ar y cychwyn. Mae'r '*dail tafol'* wedi goresgyn y fynwent nes ymddangos fel '*tonnau emrallt yn gaddo storom'*, a'r brain yn darogan gwae. Ond pan ddaw'r storm, daw'n '*gawod o liw'*, traed y plant '*yn daranau'* a'u hiaith '*fel mellt yn y llwydwyll'*. Newidir arwyddocâd elfennau natur yn ail ran y gerdd.

Cefnlen **drefol,** ddi-natur sydd i 'DIY'.

© WJEC CBAC Cyf.

**Mae'r gobaith yn cael ei gyfleu fel symbol:**

Yn ogystal â delwedd y **storm** mae delweddau **marwolaeth** yn ein hanesmwytho a'n digalonni ar gychwyn 'Beaufort, Blaenau Gwent mewn Gwyrdd' – *'meini'r meirw', 'brain / mewn siwtiau syber', 'penglog rhwth o gapel'*. Ond mae'r cwpled clo yn pwysleisio mai '*ir*' yw'r fynwent mewn gwirionedd. Mae'r hen dreftadaeth yn sail i adeiladu arno i'r iaith Gymraeg heddiw, ac mae gobaith newydd yma drwy'r genhedlaeth iau. Mae **lliwiau** hefyd yn pwysleisio'r gobaith hwn. Disodlir y tywyllwch – llwydni'r cen a düwch y brain a *'llwydwyll'* yr awyr uwchben gan '*gawod o liw'* a gwyrddni yr iaith sy'n awgrymu twf, bywyd, egni a gobaith.

Felly hefyd mae'r **blodau**'n symbol o obaith yn 'Sul y Mamau yn Greenham, 1984'. Mae ***'Y Ffens***' yn symbol o'r gorthrwm a pherygl rhyfel, perygl mor enfawr nes iddo gael prif lythrennau, ond eto mae '*dwylo ar wifren / yn ei thyneru'*. Mae gobaith y gellir newid ansawdd y ffens, y gellir dylanwadu ar yr awdudodau milwrol.

Mae Grahame Davies hefyd yn defnyddio symboliaeth. Mae'r **Neuadd** ar y cychwyn yn symbol o'r cydweithio a fu yn y gymdeithas wnaeth ei hadeiladu. Mae'r dirywiad a fu iddi yn symbol o gymdeithas yn chwalu.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o fesurau ac arddull wrth drafod thema gobaith.

**Efallai y byddant yn cyfeirio at:**

**'Beaufort, Blaenau Gwent, mewn Gwyrdd' gan Ifor ap Glyn**

- Gwêl y bardd newid mewn cymdeithas, mae capel Carmel wedi cau a'r fynwent yn wyllt gan dyfiant yr haf.
- Cyferbynnir bywyd a marwolaeth drwyddi draw, a thrwy hynny y gobaith a'r anobaith.
- Cymherir dirywiad y Gymraeg â'r dirywiad yng nghyflwr y cerrig beddau. Er gwaethaf ei phresenoldeb ar y cerrig beddau nid oes llawer o fywyd iddi.
- Mae'r darlun negyddol yn parhau wrth ddisgrifio ffenestri'r capel a'r brain, nid oes llawenydd na gobaith yma.
- Ceir newid llwyr yn y pedwerydd pennill a chyfeiria'r bardd ato ef ei hun yn y person cyntaf unigol *'daw'r storom i'm hysgwyd o'm sentimentaleiddio'.*
- Datblyga'r ddelwedd estynedig o'r *'storom'* yn storom liwgar o blant, o bramiau a welingtons.
- Mae bywyd yn y festri a phlant yr ysgol feithrin yn cadw twrw yn y Gymraeg.
- Yn y clo gwêl y bardd obaith i'r dyfodol a daw holl dyfiant y fynwent yn symbol am dwf yr iaith.
- Mae'r meirw a'r heniaith yn gwrteithio'r tir.
- Mesur penrhydd a geir yma a'r penillion yn amrywio o ran llinellau.
- Ceir gwrthgyferbyniad rhwng bywyd a marwolaeth, effeithiolrwydd y lliw gwyrdd, personoli'r Gymraeg, delwedd estynedig o'r storom, cyfleu sŵn cras â geiriau, personoli ffenestri'r capel, cyferbyniad rhwng y capel a'r festri, cwpled clo sy'n odli.

© WJEC CBAC Cyf.

**‘DIY’ gan Grahame Davies**

- Dangosir newid mewn gwerthoedd cymdeithas, cyd-ddyn a brawdgarwch.
- Gwrthgyferbynnir cydweithio cymdogol a fu gyda bywyd y byd modern.
- Mae ‘*Neuadd y Gweithwyr’* yn symbol o ddirywiad cymdeithas.
- Gwêl y bardd wacter cymdeithas – adeiladau gwag.
- Agwedd *‘pawb-drosto’i-hun’* yw hi bellach yn hytrach na chymdeithas gymdogol yn cydweithio, bron nad yw’r bardd yn cyfleu hunanoldeb unigolion.
- Gwêl ddieithrwch cymdeithasol wrth gyfeirio at y siopau DIY ar gyrion cymdeithas a phobl yn treulio eu hamser hamdden yn ‘*prowla’*.
- Mae naws y gerdd yn dwysáu wrth ystyried ein *‘byd ar chwâl yn fil o ddarnau bychain …fel cyrbibion gwareiddiad’*.
- Pwysleisir yr unigolyn yn ceisio rhoi’r ‘*mil o ddarnau bychain’* at ei gilydd, nid oes unrhyw gydweithio cymdogol bellach.
- Ceir naws truenus yn y clo – mae ar ein ffordd o fyw angen cymdeithas gymdogol.
- Cerdd benrhydd yw sy’n amrywio hyd a rhythm llinellau i bwrpas.
- Defnyddir symbol ‘*Neuadd y Gweithwyr’*, arwyddocâd y gair ‘*angen*’, trosiad o’r adeiladau ‘*yn gregyn’*, defnyddio delweddau effeithiol, defnyddio ailadrodd *‘cynnal a chadw*’, defnyddio gwrthgyferbyniad i ddwysáu’r dweud, effeithiolrwydd y ferf *‘prowla’*, yr ansoddair *‘unig’*, y ferf ‘*cyfannu’* a’r cwpled clo.
- Cyfeiria Waldo yn ei gerdd ‘Brawdoliaeth’ at y ‘*cyflawn we’* sy’n cydio ‘*Myfi, Tydi, Efe*’ i greu brawdoliaeth a cheir yr un syniad yn y pennill olaf yma, cwpled sy’n odli i dynnu sylw. Gwanhau mae ‘*gwe cyd-fyw’* yn ôl Grahame Davies ac erbyn hyn ‘*mae pob dim yn DIY’.* Mae’r ymadrodd ‘*pob dim’* yn pwysleisio’r negyddol ac yn awgrymu nad oes dim o werth ar ôl yn ein cymdeithas fodern. Mae’r gobaith wedi diflannu.

**‘Sul y Mamau yn Greenham, 1984’ gan Menna Elfyn**

- Ystyria’r bardd y brotest yng Nghomin Greenham fel cerdd.
- Ceir cyfosod rhwng y dynion a’r merched; y dynion yn eu lifrau gwaith yn *‘bwrw’* a’r merched yn ‘*creu anheddau’.*
- Cyfeirir at y ffin sef y *‘Ffens’* sy’n amgylchynu ac yn gwarchod storfeydd yr arfau niwclear; dyma symbol o awdurdod sy’n cyferbynnu gyda diffyg grym y merched wrth iddynt *‘chwarae tŷ bach mewn cylch’.*
- Portreedir y merched a’u cymdeithas gyfartal.
- Darlunnir bywyd beunyddiol y merched yn protestio o dan amgylchiadau anodd.
- Er gwaetha’r holl amgylchiadau anodd mae blodau’r gwanwyn yn *‘codi’ a’r ‘cennin Pedr o Gymru’n blodeuo’.*
- Cyfeirir at ymladd ganol nos a dinistrio eiddo.
- Mae'n cyfleu gobaith wrth sôn am fwy o brotestwyr yn cyrraedd.
- Mae’r ‘*gerdd hir’* nawr yn drosiad am y brotest.
- Hyd llinellau a hyd penillion yn amrywio yn y mesur penrhydd.
- Ceir cyfosod rhwng dynion a merched, cyferbyniad rhwng yr eira a thân, defnyddio ymadrodd ‘*brwydro yn erbyn y symbylau’*; arwyddocâd y geiriau ‘*chwarae tŷ bach’*, effeithiolrwydd berfenwau *‘sgwrsio a chanu, creu a chrio’*, haenau ystyr yr ymadrodd *‘cadw tŷ di-do’ ac ‘o dan draed’,* defnyddio cyflythrennu i gyfuno syniadau o ddinistrio eiddo ac ymladd, defnyddio berf bwerus *‘blodeuo’.*

*Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.*

© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn (b)**

*Cymharwch gerddi Iwan Llwyd, Karen Owen a Gerallt Lloyd Owen gan fanylu ar y ffordd maent yn defnyddio **unigolion penodol** i gyfleu eu neges. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull**.*

Dylent gyfeirio at 'Aneirin', 'Cân y Milwr' ac 'Y Gŵr sydd ar y Gorwel'. Bydd yr elfen gymharol yn rhan hanfodol o ofynion y cwestiwn wrth ystyried y ffordd y defnyddir y newyddiadurwr, y milwr a Saunders Lewis i gyfleu neges y beirdd.

**Arwyddocâd yr unigolion:**

Ceir portreadau amrywiol o unigolion ac o wahanol gyfnodau. Ni chaiff yr un ohonynt eu henwi ond derbynnir mai **Saunders Lewis** yw'r '*gŵr sydd ar y gorwel'*, er y gallai gyfeirio at unrhyw unigolyn sy'n barod i aberthu ei hun dros achos, a thros **Gymru a'r Gymraeg** yn arbennig. Er mai cael ei ysbrydoli gan hanes rhyfel Vietnam mae Iwan Llwyd, mae'n cyfeirio at Aneirin, bardd teulu Mynyddog Mwynfawr yn yr Hen Ogledd yn y chweched ganrif ac at bob **rhyfel** byth ers hynny. Mae naws mwy cyfoes i filwr Karen Owen wrth i **ryfel Affganistàn** a gychwynnodd yn 2001 gael ei sefydlu'n gryf drwy ailadrodd enw'r wlad i gloi pob pennill.

**Mae'r bardd yn ennyn cydymdeimlad â'r unigolyn:**

Mae Iwan Llwyd yn cyfarch y newyddiadurwr yn uniongyrchol – *'Gyda'th gamera a'th helmed', 'disgynaist', 'dy gwrcwd'* - drwy gyfrwng rhagenwau a berfau ail berson unigol sy'n sicrhau bod y darllenydd yn teimlo'n nes at y gwrthrych. Pwysleisir ei ddewrder. Mae'n **ei chanol hi** – '*prin filltir o'r frwydr'* ac ym merw'r ymladd '*a'r ergydion / yn ffrwydro'n yfflon o'th gwmpa*s'. Er y perygl mae'n cyflawni ei ddyletswyddau gan greu arwyr fel ag yr oedd y bardd wedi creu arwyr drwy gyfrwng cerdd 'Y Gododdin'.

Mae'r ffaith mai'r '***mab 'fenga'*** yw'r milwr gan Karen Owen yn ychwanegu teimlad o anhegwch a thrasiedi'r sefyllfa ac yn dwysáu ein cydymdeimlad â phryderon ei fam. Er mai gwirfoddoli i wasanaethu yn y fyddin a wnaeth does ganddo **fawr o ddewis** yn yr hyn sy'n digwydd iddo. Nid dewis yw cael '*gorchymyn dyrchafiad'* a chael ei yrru i Affganistàn. Os oes ganddo amheuon am achos y rhyfel, does ganddo ddim dewis, rhaid iddo *'lyncu y pwy, sut a pham*'. Dydy'r ffaith iddo gael *'dewis ei arch – un o garbôrd neu bren'* – ddim yn ddewis mewn gwirionedd. Rhaid derbyn mai marwolaeth fydd y pen draw a does dim y gall ei wneud i osgoi hynny.

Mae **edmygedd** Gerallt Lloyd Owen o Saunders Lewis yn amlwg. Caiff hyd yn oed ei gymharu â Christ – '*Fel y Gŵr eithafol gynt / Fu ar drawst farw drostynt'*. Felly hefyd yr aberthodd Saunders Lewis ei hun dros ei gyd-Gymry '*difraw'*. Pwysleisir y ffordd annheg y cafodd ei drin drwy chwerwder y bardd – '*A chell oedd ei diolch hi'*. Pwysleisir beth ddylai ei haeddiant fod, a beth fu'r realiti yn y gwrthgyferbyniad, '*Ennill ei chledd yn lle'i chlod'*. Mae'r gwrthgyferbyniadau cyson yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng cryfder personoliaeth Saunders Lewis a'r ffordd yr oedd y Cymry yn ei ystyried ar y pryd – '*Y miniog ei ymennydd, / Y ffŵl anfeidrol ei ffydd'. 'Ôl breuddwyd'* a *'p[h]ellter llwyd'* a welai ei wrthwynebwyr ond '*ei ddysg'* oedd yn ganolog mewn gwirionedd. Mae'r mesur ynddo'i hun yn amlygu **parch** Gerallt Lloyd Owen at y gwrthrych. Defnyddia fesur y cywydd sydd wedi cael ei ddefnyddio gan feirdd ar hyd y canrifoedd i ganu clodydd arwyr.

© WJEC CBAC Cyf.

**Brwydrau gwahanol fu gan y tri unigolyn:**

**Cofnodi'r** brwydrau oedd cyfrifoldeb yr Aneirin modern. Mae yng nghanol yr ymladd fel ag yr oedd yr Aneirin gwreiddiol yn y chweched ganrif ac awgryma Iwan Llwyd nad oes gwahaniaeth rhyngddynt mewn gwirionedd. Yr un yw eu swyddogaeth, ac felly y bu ym mhob rhyfel. Mae'r ffaith bod gwaith y newyddiadurwr rhyfel yn parhau yn pwysleisio'r ffaith nad yw'r ddynoliaeth byth wedi dysgu gwersi o holl ryfeloedd y gorffennol.

**Rhyfel swyddogol** sydd yn 'Cân y Milwr' hefyd, rhyfel y caiff y milwr ei orfodi i frwydro ynddo, a rhyfel y mae'n amlwg o'r dechrau nad oes fawr o obaith dychwelyd ohono.

**Brwydr genedlaetholgar** fu brwydr Saunders Lewis. Defnyddir delweddau milwrol yma – '*y <u>miniog</u> ei ymennydd', 'y <u>gwrol</u> un', '<u>Ennill</u> ei <u>chledd</u> yn lle'i <u>chlod</u>'.* Pwysleisir ei genedlaetholdeb a'i barodrwydd i ddioddef dros ei wlad. Mae poen ac aberth ynghlwm â'r ferf '*naddodd'.*

**Defnyddir yr unigolyn i bwysleisio neges y bardd:**

Drwy gyfosod y newyddiadurwr a'r bardd gwreiddiol, y ddau o wahanol gyfnodau, pwysleisia Iwan Llwyd **nad yw dyn, yn ei anian, wedi newid**. Dros yr holl ganrifoedd parhau mae ysfa dyn i ladd cyd-ddyn, parhau mae ysfa gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel a pharhau mae ysfa'r milwyr i gael eu hanfarwoli. Drwy wrthgyferbynnu'r '*lladd mewn lliw'* a '*mewn du a gwyn'* gwelir mai'r un yw'r lladdfa a thrwy allu gweld eu lluniau yn '*rhagluniau'r lens'* mae *'Aneirin'* fel pe bai'n dangos eu tynged i'r milwyr. Nid yw tynged milwyr yn newid, a does dim y gall y newyddiadurwr ei wneud i newid hynny.

Neges **wrthfilwrol** yw un Karen Owen. Er mai ymladd dros ryddid pobl Affganistàn a wna'r milwr mae wedi colli ei ryddid ei hun a cholli ei fywyd erbyn y diwedd. Awgrymir twyll yr awdudodau yn gynnil, mae'r ffaith bod y gorchymyn yn dod 'o *Lundain*' yn nodi mai gweithredu dros lywodraeth estron y mae. Canolbwyntia'r bardd ar un milwr yn bennaf, ond tristwch y sefyllfa yw mai un o filoedd ydy o. Wrth i'w gorff ef gael ei gludo adref, '*bydd llond dwy awyren yn teithio ynghynt / trwy waed awyr arall*' i gymryd ei le ac i wynebu'r un dynged.

Defnyddio Saunders Lewis i **godi cywilydd** ar ei gyd-Gymry a'u **deffro i weithredu** y mae Gerallt Lloyd Owen, a hynny drwy ddulliau trais. Rhaid aberthu er mwyn sicrhau annibyniaeth yw ei farn ef ar y pryd, - *'Ni all sŵn ennill senedd / Ni ddaw fyth heb newydd fedd*'. Defnyddia Saunders Lewis i gyfleu ein diffyg asgwrn cefn a'n difaterwch ni fel cenedl gan obeithio codi cywilydd arnom.

© WJEC CBAC Cyf.

**Agwedd feirniadol:**

Gwelir safbwynt Karen Owen at y rhyfel yn Affganistàn o'r cychwyn cyntaf. Cyfleir mai dioddefwr yw'r milwr a gaiff ei anfon i faes y gad ac a leddir yno. Noda'r bardd mai cylch tragwyddol yw'r daith yn ôl ac ymlaen o faes y gad. Does dim enw nac unrhyw fanylyn arall sy'n rhoi hunaniaeth i'r milwr hwn. Mae'n symbol o'r holl filwyr eraill sy'n dioddef mewn rhyfel ac mae'r bardd yn **beirniadu llywodraethau** am y lladdfa.

Safbwynt beirniadol sydd gan Iwan Llwyd at ryfel hefyd a chydnabu **na lwyddwyd i ennyn atgasedd dyn at frwydro** er gwaetha'r datblygiad mewn technoleg a chyfryngau'r gohebydd. Eto, er gwaetha'r elfen gref o feirniadaeth, cynnig anfarwoldeb i'r milwyr a wna'r gohebydd rhyfel a gobaith iddynt fyw am byth mewn llun a gair. Mae holl newyddiadurwyr ar hyd yr oesoedd yn gallu rhagweld tynged y milwyr.

Ein **beirniadu ni fel Cymry** mae Gerallt Lloyd Owen am nad ydym yn trysori ein hiaith yn ddigonol. Condemnia'r genedl gan rybuddio'n uniongyrchol y byddwn ni, genedl y Cymry, yn gweld ein cywilydd ryw ddiwrnod am nad oeddem ni wedi gwrando ar lais Saunders Lewis a dilyn ei esiampl.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o fesurau ac arddull wrth drafod sut y mae'r beirdd yn defnyddio'r unigolion i gyfleu eu neges e.e. mae'r mesur a ddefnyddia Iwan Llwyd yn ein hatgoffa o englynion milwr, mydr ac odl gan Karen Owen yn eironig o ysgafn wrth drafod thema mor drist, ac yn ailadrodd '*Affganistàn'* fel cytgan ar ddiwedd pob pennill a chywydd Gerallt Lloyd Owen yn adleisio defnydd y mesur fel cyfrwng mawl a marwnad dros y canrifoedd.

**Efallai y byddant yn cyfeirio at:**

**'Aneirin' gan Iwan Llwyd**

- Mae gweledigaeth Iwan Llwyd fel bardd ag elfen gref o feirniadaeth yma. Awgryma na lwyddodd y Cynfeirdd na'r newyddiadurwyr cyfoes i ennyn atgasedd dyn at ryfel.
- Aiff yn ôl mewn hanes wrth ddewis Aneirin fel teitl ond trafod o safbwynt gyfoes y mae.
- Trafodir rôl y gohebydd rhyfel o gyfnod Aneirin i gyfnod rhyfel Fietnam.
- Aneirin modern yw'r newyddiadurwr sy'n neidio i ganol y frwydr ac yn tynnu llun mewn lliw, ei gyfosod ag Aneirin y bardd yn y 6ed ganrif - mae'r lliw yn cynrychioli'r presennol, a'r '*du a'r gwyn'* yn cynrychioli'r gorffennol.
- Yr un yw ysfa dyn i ryfela, yr un yw ysfa gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel a'r un yw ysfa'r milwyr i gael eu hanfarwoli.
- Mae Aneirin yn rhoi urddas i farwolaeth ac i'r hogiau a laddwyd yn y rhyfeloedd, rhoi *'cip ar dragwyddoldeb'* i'r milwyr, parhau i gadw cof amdanynt a sicrhau y byddant yn fyw am byth.
- Mae'r newyddiadurwr yn rhoi iddynt y *'cip ar dragwyddoldeb'* - gellir fodd bynnag awgrymu bod yma ystyr ddeublyg – bod y milwyr yn cael awgrym bod eu gwrhydri yn ennill anfarwoldeb a chlod iddynt, neu roi rhybudd iddynt fod angau a byd tragwyddol gerllaw.
- Cyfosod yw un o brif nodweddion arddull Iwan Llwyd, cyfosod pobl, amser, llefydd a digwyddiadau.
- Cerdd ddigynghanedd ydyw,cyfres o benillion tair llinell - mae'r penillion byrion fel golygfeydd sydyn adroddiadau ar gyfer newyddion teledu.
- Ceir cyfeiriadau bwriadol at farddoniaeth Aneirin, *'y milwyr briwiedig'* a'u cyrff yn *'gig amrwd a fwydai frain'*, delweddau rhyfel, gwrthgyferbyniadau rhwng brwydr Catraeth a brwydrau Kampuchea, Somme a'r Chwe Sir - yr un oedd y lluniau o'r rhyfeloedd ond bod y rhain yn lluniau du a gwyn, defnyddio berfau, cyfarch y newyddiadurwr, crefft sain rhai llinellau, personoli'r tanciau, goferu, coegni yn yr ansoddair *'ddiduedd'*, amwysedd.
- Gwelir ei gred mai ffolineb yw'r dyhead i ladd a'r dyhead i farw dros achos mewn ymgais at anfarwoldeb, erchylltra rhyfel sy'n cael ei amlygu ymhob oes ac nid yw wedi newid dros y canrifoedd.

© WJEC CBAC Cyf.

**‘Cân y milwr’ gan Karen Owen**

- Cân syml, wrth filwrol bwerus.
- Canolbwyntir ar dynged un milwr, dienw sy’n cael ei alw i ymladd dros ryddid pobl Affganistàn.
- Caiff ei orchymyn i fynd a cheir awgrym o dwyll yn perthyn i’r gorchymyn wrth awgrymu mai *‘dyrchafiad’* ydyw, nid oes ganddo ddewis ond ufuddhau mewn gwirionedd.
- Sonnir am ofid y fam, yr ansicrwydd a’r dagrau.
- Cyfleir y sefyllfa eironig wrth gyfleu hawliau’r milwr, yr hawl i gael helmed, cysgodfan ac arch ond nid yw’n cael dewis rhwng byw a marw.
- Sonnir am y cyfarpar - yn ‘*sgidiau blaen haearn’* a’i *‘fenig asbestos’* ond er gwaethaf yr holl gyfarpar fe’i lladdwyd ar dir estron; pwysleisir pa mor amhersonol yw’r milwr.
- Rhan o beiriant rhyfel ydyw, tra ei fod yntau yn cael ei gludo adref *‘fel bwled trwy’r gwynt, bydd llond dwy awyren yn teithio’* allan *‘ynghynt’.*
- Cerdd rydd ar fydr ac odl sy’n ailadrodd y llinell olaf fel byrdwn neu gytgan; mae amrywio’r arddodiad sy’n rhagflaenu *‘Affganistàn’* yn effeithiol, fwriadol.
- Defnyddir ansoddeiriau’n effeithiol, effeithiolrwydd geiriau unigol - ‘*rhydd*’, *‘llith’*, *‘asbestos’*, defnyddio berf *‘llyncu’*, ailadrodd *‘câi’*, arwyddocâd y ferf amhersonol *‘fe’i lladdwyd’,* defnyddio eironi, gallu i amrywio’r cywair – *‘carbôrd’*, ‘*dan guddliw y byd’* – fel y byddai milwr yn gwisgo gwisg guddliw, mae’r byd hefyd yn cuddio’r gwirionedd am ei farwolaeth, effeithiolrwydd y gymhariaeth *‘fel bwled’*, arwyddocâd y machlud yn y clo.

**‘Y Gŵr sydd ar y Gorwel’ gan Gerallt Lloyd Owen**

- Mae cydwybod y bardd yn ei bigo ynglŷn â’r modd cywilyddus y gwnaethom drin Saunders Lewis a’i garcharu ‘*am wir act o Gymreictod*’.
- Ceir portread o Saunders Lewis: disgrifiad ffisegol, bychan ac eiddil o ran ymddangosiad ond nid o ran ei bersonoliaeth, meddwl chwim, gŵr dysgedig, person breuddwydiol â llais distaw.
- Mae’r bardd yn dyrchafu'r ysgolhaig a’r cenedlaetholwr.
- Cyffelybir Saunders Lewis ag Iesu Grist - cyfosod aberth Saunders Lewis dros Gymru â’r aberth mwyaf un sef marw ar y groes.
- Er bod hynny’n eithafol, mae’n ein hatgoffa sut, yn ôl y Beibl, na dderbynnir proffwyd yn ei wlad ei hun a sut y gwrthodwyd Saunders Lewis, ei gredoau a’i weithredoedd, gennym ni fel cenedl.
- Ceir beirniadaeth ar y Cymry o’r modd y cafodd ei drin gan ei genedl. Fe’u cyhuddir o fod yn anniolchgar; dyma ddangos safbwynt y bardd.
- Mesur caeth e.e. cynghanedd - sŵn a phoen sy’n cael ei gyfleu yn llinell gyntaf y cwpled ‘*naddodd ei chalon iddi / A chell oedd ei diolch hi*’ yn cymharu â sŵn gwacter y gell yn yr ail linell.
- Gweledigaeth y bardd, mae’n cynnig ateb ‘*Ni all sŵn ennill senedd, / Ni ddaw fyth heb newydd fedd*’ – awgrym o dasgu gwaed a brwydro. Mae’n gwbl blaen ei genadwri, mae brwydro yn gyfiawn yng nghyd-destun cenedlaetholdeb.
- Yn y pennill olaf mae’r bardd yn cyfarch y Cymry ac yn eu herio, eto mae yma obaith. Mae yma ddarogan y daw'r genedl at ei choed, ‘*daw y dydd / Y gweli dy gywilydd*’, gan sylweddoli’r hyn a wnaeth Saunders Lewis yn naddu’r ‘*galon iddi’*.
- Diddorol sylwi nad yw’r gwrthrych yn cael ei enwi yn y gerdd o gwbl.
- Gwelir defnyddio trosiadau, defnyddio rhagenw ‘*dy*’ yn cyfleu ymdeimlad o agosatrwydd, ailadrodd negydd ‘*ni*’, ailadrodd yn y clo sy'n creu undod.
- Mae'n defnyddio testun ei gerdd i gyfleu ein diffyg asgwrn cefn fel cenedl, cawn ein hannog i edrych ar SL a dilyn ei esiampl.

*Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.*

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynllun Marcio Cwestiwn 2 – Barddoniaeth 30 marc am yr ymateb ysgrifenedig a 10 am safon yr iaith a'r arddull**

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth drylwyr ac eang am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• cymharu a chroesgyfeirio effeithiol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at gerddi penodol a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull yn effeithiol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn effeithiol | **24-30** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | **8-10** |
| • arddangos gwybodaeth fanwl am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• cymharu a chroesgyfeirio synhwyrol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth eithaf da o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n synhwyrol ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol yn aml<br>• dadansoddi arddull yn foddhaol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn gyson | **20-23** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir a chroyw mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | **7** |

© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth am y cerddi gyda manylder ar adegau<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• cymharu a chroesgyfeirio rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'r testun yn foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn eithaf cyson | **15-19** | • mynegi syniadau a dadleuon yn glir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn lled ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | **5-6** |
| • arddangos gwybodaeth am gynnwys y cerddi<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol<br>• cymharu a chroesgyfeirio ychydig rhwng gweithiau'r beirdd<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y cerddi<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau addas yn achlysurol<br>• trafod rhai agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi barddoniaeth | **11-14** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **4** |

© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth fras am y cerddi<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ceisio cymharu gwaith beirdd â'i gilydd<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• dangos y tueddiad i ailadrodd cynnwys<br>• arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau personol, arwynebol<br>• defnyddio ambell i gyfeiriad penodol at gerddi a dyfynnu'n achlysurol iawn<br>• ceisio trafod ambell agwedd ar arddull<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi barddoniaeth | **6-10** | • mynegi syniadau uniongyrchol a syml yn lled glir<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **2-3** |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig | **0-5** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig | **0-1** |



© WJEC CBAC Cyf.